



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Datganiad polisi ar y Pecyn Economi Gylchol

Datganiad ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA), Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

[2020]



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot



© Hawlfraint y Goron 2020

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.3. I weld y drwydded hon ewch at www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu anfonwch neges e-bost i PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Rhif PB 14626

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom:

Trwy'r e-bost i: Waste-EUExit@defra.gov.uk

Neu'n ysgrifenedig i: CEP Transposition
Defra: Resources and Waste
2 Marsham Street
Seacole Building (SE)
London
SW1P 4DF

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	4
Cyflwyniad	6
Pecyn Economi Gylchol	6
Cwmpas	7
Hyd a lled daearyddol	7
Dull Trosi.....	8
Ymagweddau tuag at bolisi gwastraff ledled y DU	9
Lloegr	9
Cymru.....	10
Gogledd Iwerddon.....	11
Yr Alban	12
Atodiadau.....	13

Crynodeb Gweithredol

Mae'r DU yn ymrwymedig i symud tuag at economi fwy cylchol a fydd yn golygu ein bod yn cadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, gan gael y gwerth mwyaf posibl ohonynt, gan leihau gwastraff i'r eithaf a hybu effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r Pecyn Economi Gylchol (PEG)¹ yn cyflwyno fframwaith deddfwriaethol diwygiedig, gan nodi camau ar gyfer lleihau gwastraff a sefydlu llwybr uchelgeisiol a hygred ar gyfer rheoli ac ailgylchu gwastraff.

Mae llawer o'r themâu a'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y PEG yn ymwneud â meysydd polisi adnoddau a gwastraff lle mae gwledydd y DU eisoes yn chwarae rhan weithredol trwy fesurau presennol neu waith sydd ar y gweill i ganlyn arni ag ymrwymadau a wneir yn eu priod strategaethau gwastraff domestig; mae'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff² (RWS) ar gyfer Lloegr yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth y DU yn y Cynllun 25 Mlynedd ar gyfer yr Amgylchedd³ i Loegr adael yr amgylchedd mewn gwell cyflwr nag y gwnaethom ei etifeddu ynddo. Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgylchu*, yn manylu ar ei nod i wneud economi gylchol, carbon isel yng Nghymru'n realiti gyda chyfres o gamau gweithredu allweddol i gyflawni'r amcan, sef bod yn ddiwasttraff erbyn 2050. Mae strategaeth economi gylchol Llywodraeth yr Alban, Making Things Last⁴, a gyhoeddwyd yn 2016, yn nodi gweledigaeth a blaenoriaethau eglur ar gyfer gweithredu i symud tuag at economi fwy cylchol; ac mae'r Alban yn pennu cyfres o dargedau uchelgeisiol i hybu natur gylchol. Yng Ngogledd Iwerddon, mae Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) wrthi ar hyn o bryd yn datblygu "Strategaeth yr Amgylchedd ar gyfer Gogledd Iwerddon" a fydd yn ystyried y prif flaenoriaethau amgylcheddol hirdymor ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r newidiadau allweddol a wnaed gan PEG ac ymagwedd y DU at drosi mesurau PEG 2020. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi penderfynu defnyddio dull sy'n golygu cyhoeddi'r datganiad cyhoeddus hwn a pheidio â rhedeg ymgynghoriad ffurfiol. Mae trwch mesurau PEG 2020 yn newidiadau technegol cymharol fach a/neu mae'r ddeddfwriaeth weithredu'n syml yn mabwysiadu'r un geiriad â'r Gyfarwyddeb. Rydym eisoes wedi ymgynghori ar rai o'r newidiadau allweddol yn y PEG, fel y gwnaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn 2013⁷ a 2015⁸ yn ystod negodiadau. Lle'r oedd mewnbyn gan randdeiliaid yn ofynnol i ddatblygu canllawiau newydd, mae ymgysylltu anffurfiol wedi digwydd gyda rhanddeiliaid yr effeithir arnynt. Cyhoeddir yr Asesiad Brysbennu Rheoleiddiol ochr yn ochr â'r datganiad hwn ac mae'n dangos cost gymdeithasol

¹ http://ec.europa.eu/environment/circular-economy/index_en.htm

² <https://www.gov.uk/government/publications/resources-and-waste-strategy-for-england>

³ <https://www.gov.uk/government/publications/25-year-environment-plan>

⁴ <https://www.gov.scot/publications/making-things-last-circular-economy-strategy-scotland/>

⁷ http://ec.europa.eu/environment/consultations/waste_targets_en.htm

⁸ http://ec.europa.eu/environment/consultations/closing_the_loop_en.htm

bresennol net o £13.4m. Amcangyfrifir mai £2.6m y flwyddyn yw'r gost uniongyrchol net i fyd busnes.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan nad yw gadael yr UE wedi newid ein huchelgeisiau sydd ar flaen y gad yn y byd o ran yr amgylchedd, ac nad oes bwriad gennym i wanhau ein mesurau diogelu amgylcheddol presennol ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio. Mae gennym hanes hir o ddiogelu'r amgylchedd a ategir gan fframwaith cyfreithiol cryf sy'n rhagddyddio ein haelodaeth o'r UE, a byddwn yn diogelu'r hanes hwn ac yn gwella arno. Ar ben hynny, rydym yn cydnabod manteision newid i economi fwy cylchol a mwy effeithlon o ran defnyddio adnoddau fel modd nid dim ond i leihau effeithiau ar ein hamgylchedd naturiol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o waredu ac allyriadau corfforedig sy'n gysylltiedig â'n defnydd, ond hefyd o ran chystadleurwydd, cydnerthedd a thwf. Mae pob un o'r pedair gwlad wedi ymrwmo i barhau i wella mesurau diogelu'r amgylchedd, gan gydnabod yr angen i gyflymu camau gweithredu i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd.

Mae Atodiad I yn darparu manylion holl fesurau 2020 a'n dull o'u trosi. Mae Atodiad II yn cynnwys yr Aseiad Brysbennu Rheoleiddiol ac mae Atodiad III yn nodi diweddariadau arfaethedig i ganllawiau ynghylch y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio.

Cyflwyniad

Bydd newid i economi fwy cylchol yn golygu ein bod yn optimeiddio ein defnydd o adnoddau o fewn yr economi trwy gynyddu hyd oes ddefnyddiol cynnyrch a sicrhau, pan fo wedi cyrraedd diwedd ei oes, bod adnoddau cynnyrch yn gallu cael eu defnyddio'n gynhyrchiol dro ar ôl tro, gan felly greu gwerth pellach. O ganlyniad, mae'r gwerth ychwanegol mewn cynhyrchion yn aros yn y systemau am gyhyd â phosibl, gan felly leihau gwastraff. Er mwyn newid i economi fwy cylchol mae'n rhaid wrth newidiadau drwyddi draw mewn cadwyni gwerth, gan gynnwys dyluniad cynhyrchion, modelau busnes a marchnad newydd, ffyrdd newydd o droi gwastraff yn adnodd a newidiadau i ymddygiad defnyddwyr⁵. Bydd newid i economi fwy cylchol yn dwyn manteision amgylcheddol, ariannol a chymdeithasol i bedair gwlad y DU.

Pecyn Economi Gylchol

Mae troi gwastraff yn adnodd yn rhan o 'gau'r ddolen' mewn systemau economi gylchol. Caiff uchelgais y DU i newid i economi gylchol ei adlewyrchu yn nifer o'r newidiadau sy'n ofynnol fel rhan o'r Pecyn Economi Gylchol (PEG). Mae'r fframwaith deddfwriaethol diwygiedig ar yr economi gylchol yn nodi camau clir ar gyfer lleihau gwastraff ac yn sefydlu llwybr hirdymor uchelgeisiol a hygred ar gyfer rheoli ac ailgylchu gwastraff. Mae'r diwygiadau'n cynnwys alinio diffiniadau, termau a phwerau ar draws tair Cyfarwyddeb, a mesurau i liflinio a symleiddio gofynion adrodd a mynd i'r afael â materion gwastraff penodol.

Fel rhan o'u negodiadau cynhwysfawr ar y pecyn, y pleidleisiodd y DU o'i blaid, cynhaliodd Comisiwn yr UE ymgynghoriadau cyhoeddus ar yr economi gylchol yn 2013⁶ a 2015⁷. Yn ystod y camau hyn a chamau hwyrach yn y negodiadau, cynhaliodd Defra drafodaethau rheolaidd gyda rhanddeiliaid allweddol am oblygiadau posibl y cynigion. Fe gytunodd Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion ar y pecyn terfynol ym mis Mai 2018, ac fe'i cyhoeddwyd wedyn yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 14 Mehefin 2018 a daeth i rym ar 4 Gorffennaf 2018. Mae'r PEG yn gyson ag uchelgais cyfunol gwledydd y DU i newid tuag at economi gylchol a bydd ei roi ar waith yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cynnal ac y gallai fynd y tu hwnt i safonau amgylcheddol a ninnau bellach wedi gadael yr UE.

Mae'r datganiad hwn yn crynhoi'r newidiadau sy'n ofynnol yn PEG 2020 a'n dulliau arfaethedig ar gyfer trosi (gweler Atodiad I am ragor o fanylion).

⁵ https://ec.europa.eu/commission/sites/beta-political/files/circular-economy-factsheet-general_en.pdf

⁶ http://ec.europa.eu/environment/consultations/waste_targets_en.htm

⁷ http://ec.europa.eu/environment/consultations/closing_the_loop_en.htm

Cwmpas

Mae trwch y newidiadau o ran sylwedd i gyfreithiau, rheoliadau a darpariaethau gweinyddol a wnaed dan y PEG yn effeithio ar dair Cyfarwyddeb:

- a. **Cyfarwyddeb 2008/98/EC⁸ ar wastraff (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (WFD))**, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2018/851 dyddiedig 30 Mai 2018⁹.
- b. **Cyfarwyddeb 94/62/EC¹⁰ ar Ddeunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio (PPWD)**, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2018/852 dyddiedig 30 Mai 2018¹¹.
- c. **Cyfarwyddeb 1999/31/EC¹² ar Dirlenwi Gwastraff (LFD)**, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2018/850¹³ dyddiedig 30 Mai 2018

Y tair Cyfarwyddeb sy'n weddill ac a ddiwygir gan y PEG yw Cerbydau Diwedd Oes (ELV) (Cyfarwyddeb 2000/53/EC)¹⁴, Batris a Chronaduron a Batris a Chronaduron Gwastraff (BAWBA) (Cyfarwyddeb 2006/66/EC)¹⁵ ac Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) (Cyfarwyddeb 2012/19/UE)¹⁶. Mae'r rhain i gyd wedi cael eu diwygio gan un Gyfarwyddeb ddiwygiol (UE) 2018/849¹⁷. Mae'r newidiadau a wnaed i'r tair Cyfarwyddeb hon gymharol fach a naill ai nid oes angen eu trosi neu mae mesurau eisoes yn eu lle i ateb y gofynion.

Hyd a lled daearyddol

Mae'r pedair gweinyddiaeth wedi cydweithio i roi'r datganiad hwn ynghyd a byddant yn parhau i wneud hynny wrth symud trwy weddill y broses drosi.

Bydd rhai diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn berthnasol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y rhan yn ymwneud â deddfwriaeth bresennol sy'n berthnasol ar sail y DU - neu Brydain Fawr – gyfan neu â'r Rheoliadau hynny nad ydynt wedi'u datganoli. Bydd yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn gwneud eu rheoliadau hwy eu hunain sy'n trosi'r elfennau o'r PEG nad ydynt yn berthnasol i'r DU gyfan i'w deddfwriaeth gartref hwy eu hunain.

⁸ [Cyfarwyddeb 2008/98/EC dyddiedig 19 Tachwedd 2008](#)

⁹ [Cyfarwyddeb \(UE\) 2018/851 dyddiedig 30 Mai 2018 yn diwygio Cyfarwyddeb 2008/98/EC ar wastraff](#)

¹⁰ [Cyfarwyddeb 94/62/EC dyddiedig 20 Rhagfyr 1994 ar ddeunydd pacio a gwastraff deunydd pacio](#)

¹¹ [Cyfarwyddeb \(UE\) 2018/852 dyddiedig 30 Mai 2018 yn diwygio Cyfarwyddeb 94/62/EC ar ddeunydd pacio a gwastraff deunydd pacio](#)

¹² [Cyfarwyddeb 1999/31/EC dyddiedig 26 Ebrill 1999 ar dirlenwi gwastraff](#)

¹³ [Cyfarwyddeb \(UE\) 2018/850 dyddiedig 30 Mai 2018 yn diwygio Cyfarwyddeb 199/31/EC ar dirlenwi gwastraff](#)

¹⁴ [Cyfarwyddeb 2000/53/EC dyddiedig 18 Medi 2000 ar gerbydau diwedd oes](#)

¹⁵ [Cyfarwyddeb 2006/66/EC dyddiedig 6 Medi 2006 ar fatris a chronaduron a batris a chronaduron gwastraff](#)

¹⁶ [Cyfarwyddeb 2012/19/EU dyddiedig 4 Gorffennaf 2012 ar offer trydanol ac electronig gwastraff \(WEEE\)](#)

¹⁷ [Cyfarwyddeb \(UE\) 2018/849 dyddiedig 30 Mai 2018 yn diwygio Cyfarwyddebau 2000/53/EC ar gerbydau diwedd oes, 2006/66/EC ar fatris a chronaduron a batris a chronaduron gwastraff, a 2012/19/EU ar offer trydanol ac electronig gwastraff](#)

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol i drosi mesurau PEG 2020 ar ran Cymru a Lloegr, ar wahân i rai diwygiadau sy'n ymwneud â gwastraff peryglus y mae Defra yn eu gwneud i Loegr yn unig. Mewn perthynas â'r agweddau hynny ar yr Offeryn Statudol sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio cydsyniad Senedd Cymru i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud y newidiadau deddfwriaethol ar eu rhan. Ochr yn ochr â hyn, bydd unrhyw ddiwygiadau i ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru yn unig yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau annibynnol ar gyfer Cymru yn unig.

Dull Trosi

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraethau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi penderfynu y bydd mesurau PEG 2020 yn cael eu trosi fel a ddisgrifir yn y datganiad cyhoeddus hwn, heb ymgynghori ffurfiol o ystyried bod y newidiadau'n weddol fach a thechnegol. Hefyd, mewn rhai achosion, mae gwahanol rannau o'r DU eisoes wedi cyflwyno polisiau yr ystyrir eu bod yn ddigonol i gwrdd â deddfwriaeth ddiwygiedig yr UE, ac mae ymgynghoriadau'n mynd rhagddynt ar feysydd polisi eraill sy'n gysylltiedig â phontio i economi fwy cylchol.

O ran mesurau PEG i'w trosi erbyn 2020, bydd cyfuniad o newidiadau anneddfwriaethol a newidiadau deddfwriaethol ag effaith fach (yn bennaf 'copïo allan' h.y. mae'r ddeddfwriaeth weithredu'n mabwysiadu'r un geiriad â'r hyn a geir yn y Gyfarwyddeb), yn trosi'r rhan fwyaf o ofynion y PEG. Er enghraifft, er mwyn diwygio Erthyglau 10(4), 18, a 21(1)(c) ac Erthygl 35(1) a (4) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ac Erthygl 5(3)(f) o'r Gyfarwyddeb Tirlenwi, bydd yn rhaid wrth newidiadau ychydig yn fwy helaeth. Mae'r erthyglau olaf hyn yn canolbwyntio ar dirlenwi a chyfyngiadau ar losgi gwastraff a gasglwyd ar wahân, a diwygiadau o ran gwastraff peryglus. Caiff y rhestr lawn o newidiadau i'r PEG sy'n ofynnol ei darparu yn Atodiad I.

Bydd rhai o'r mesurau'n golygu ei bod yn ofynnol gwneud newidiadau i ganllawiau presennol, neu ysgrifennu canllawiau newydd, a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi maes o law. **Mae Atodiad III yn egluro'r diweddariadau arfaethedig i ganllawiau ynghylch y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio.**

Effeithiau newidiadau i'r PEG

Rydym wedi asesu effeithiau'r newidiadau a darperir yr Asesiad Brysbennu Rheoleiddiol (RTA) (Atodiad II). Bydd effaith gronnus y diwygiadau i Erthyglau 10(4),

18, a 21(1)(c) ac Erthygl 35(1) a (4) o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ac Erthygl 5(3)(f) o'r Gyfarwyddeb Tirlenwi yn arwain at gost gymdeithasol bresennol net o £13.4m. £2.6m y flwyddyn yw'r gost uniongyrchol net i fyd busnes, ac nid yw hyn yn cynnwys manteision i gyfleusterau ailgylchu a thrin biolegol mecanyddol. Deallir bod gweddill mesurau PEG 2020 yn rhai cost isel neu heb gost o gwbl i fusnesau na'r sector cyhoeddus.

Yng Nghymru, nid yw safleoedd tirlenwi'n derbyn cyfrannau a gasglwyd ar wahân, ac nid yw cyfleusterau Ynni o Wastraff (Ilosgyddion) wedi'u hawdurdodi i dderbyn deunydd eildro a gasglwyd ar wahân oni bai y gellir dangos ei fod yn anaddas ar gyfer ailgylchu ac felly ni ddylid disgwyl unrhyw effaith ar weithredwyr yng Nghymru nac unrhyw gynnydd mewn achosion y flwyddyn. Yng Nghymru, mae'r targedau gwastraff trefol a thirlenwi'n cael eu trosi hefyd. Ni fyddant yn cyflwyno effeithiau ychwanegol at y rhai a nodwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno'u targedau a pholisïau.

Ymagweddau tuag at bolisi gwastraff ledled y DU

Mae polisi gwastraff yn fater sydd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth yn y DU; felly, yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, y gweinyddiaethau datganoledig sy'n gyfrifol am strategaeth a pholisi mewn perthynas â rheoli gwastraff. Gall deddfwriaeth gwastraff yr UE gael ei throsi'n uniongyrchol gan reoliadau ym mhob un o'r gwledydd. Fodd bynnag, er gwaethaf gwahaniaethau rhwng y gweinyddiaethau datganoledig o ran manylion penodol mesurau polisi, mae blaenoriaethau a strategaethau cenedlaethol ar gyfer gwastraff wedi bod yn gyson o ran amcanu at lywio camau gweithredu ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff a gweithio i symud tuag at economi fwy cylchol.

Lloegr

Sut y mae'r PEG yn alinio â'n strategaethau ni

Mae strategaethau diweddar gan y Llywodraeth sy'n ystyried adnoddau a gwastraff yn Lloegr yn cynnwys:

- Y Cynllun 25 Mlynedd ar gyfer yr Amgylchedd¹⁸: Mae hwn yn nodi fframwaith polisi ar gyfer y cam cynhyrchu, gan roi trywydd clir i gynhyrchwyr o ran sut y byddwn yn dyblu cynhyrchiant adnoddau ac yn cyflawni sefyllfa o ddim gwastraff y gellir ei

¹⁸ <https://www.gov.uk/government/publications/25-year-environment-plan>

osgoi erbyn 2050. A ninnau bellach wedi gadael yr UE, bydd Cynllun 25 Mlynedd trosfwaol y DU ar gyfer yr Amgylchedd yn parhau i bennu ein cyfeiriad.

- Strategaeth Twf Glân¹⁹: Mae hon yn ymrwmo i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o reoli allyriadau o dirilenwi.
- Strategaeth Ddiwydiannol²⁰: Mae hon yn pennu ein nod bod deilliannau ehangach yn cael eu hystyried ar adeg dylunio prosiectau pwysig a rhoi anogaeth ar gyfer newid diwylliannol – lle mae defnyddwyr yn ystyried gwerth oes gyfan cynnyrch yn hytrach na chanolbwyntio ar y gost rhag blaen.
- Strategaeth Sbwriel ar gyfer Lloegr²¹: Mae economi gylchol sy'n rhoi anogaeth i ailddefnyddio ac yn lleihau i'r eithaf swm y gwastraff a gynhyrchir yn gyson â nodau'r Strategaeth Sbwriel i leihau'r gwastraff sy'n diweddu yn ein hafonydd, ein moroedd a'n gwlad ar y cyfan.
- Mae'r Strategaeth Adnoddau a Gwastraff (RWS)²² yn dangos ein huchelgais i symud tuag at economi fwy cylchol a fydd yn golygu ein bod yn cadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl, yn cael y gwerth mwyaf posibl ohonynt ac yn hybu effeithlonrwydd adnoddau. Mae'r Offeryn Statudol trosi'n rhoi ein hymrwymiad yn y Strategaeth Adnoddau a Gwastraff i ailgylchu 65% o wastraff trefol ac i fod â dim mwy na 10% o wastraff trefol yn mynd i safle tirlenwi erbyn 2035 mewn cyfraith.

Cymru

Polisi economi gylchol yng Nghymru

Ym mis Rhagfyr 2019, fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar strategaeth economi gylchol newydd i Gymru – Mwy nag Ailgylchu. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar ddiwedd mis Ebrill 2020 a hwythau wedi ymgysylltu â thua 1,000 o ddinasyddion a rhanddeiliaid. Roedd yn cynnig y camau nesaf yn y llwybr tuag at economi gylchol yng Nghymru trwy nodau strategol i ddod yn wlad ddiwastraff, ag allyriadau sero net sy'n defnyddio cyfran deg o adnoddau'r ddaear gan wireddu'r potensial economaidd y mae'r trawsnewid hwn yn ei ddwyn.

Bydd strategaeth economi gylchol newydd i Gymru'n cael ei chyhoeddi yn 2020. Bydd hefyd yn adeiladu ar y strategaeth gyfredol Tuag at Ddyfodol Diwastraff²³, y Strategaeth Wastraff Drosfwaol ar gyfer Cymru. Un o nodweddion allweddol Tuag at Ddyfodol Diwastraff oedd ei bod yn pennu targedau ailgylchu ar gyfer awdurdodau

¹⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/clean-growth-strategy>

²⁰ <https://www.gov.uk/government/topical-events/the-uks-industrial-strategy>

²¹ <https://www.gov.uk/government/publications/litter-strategy-for-england>

²² <https://www.gov.uk/government/publications/resources-and-waste-strategy-for-england>

²³ <https://lyw.cymru/tuag-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff>

lleol (a wnaed yn statudol dan Fesur Gwastraff (Cymru) 2010) sy'n golygu bod Cymru ar flaen y gad yn fyd-eang o ran rheoli gwastraff ac yn gyfforddus ar y trywydd iawn i gyrraedd targed i ailgylchu 70% o wastraff trefol erbyn 2025. Ategir Tuag at Ddyfodol Diwastraff gan gyfres o gynlluniau sector a dogfennau eraill²⁴ a'r rhain, gyda'i gilydd, yw'r cynllun rheoli gwastraff ar gyfer Cymru. Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn nodi pwysigrwydd gofalu am ein hadnoddau mewn modd effeithlon. Gyda'i gilydd, mae dogfennau'r cynllun gwastraff yn cofleidio holl gysyniadau allweddol dull economi gylchol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod economi gylchol yn rhan allweddol o'i Chynllun Gweithredu ar yr Economi²⁵ a'i Pholisi ar Adnoddau Naturiol²⁶. Mae effeithlonrwydd adnoddau hefyd yn elfen allweddol o'r fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru sydd wedi'i gynnwys yn y nod 'Cymru Lewyrchus' dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015²⁷.

Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, mae "Strategaeth yr Amgylchedd ar gyfer Gogledd Iwerddon" wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn ystyried y prif flaenoriaethau amgylcheddol hirdymor ar gyfer Gogledd Iwerddon. Bydd hon yn sail i set gydlynol ac effeithiol o ymyriadau a all ddwyn gwelliannau yn ansawdd yr amgylchedd, gan felly greu cyfleoedd i ddatblygu'r economi, gwella iechyd a lles dinasyddion a chwarae rhan yn y broses o ddiogelu'r amgylchedd byd-eang.

Hefyd, mae Economy 2030²⁸ – y Strategaeth Ddiwydiannol ddrafft ar gyfer Gogledd Iwerddon a gyhoeddwyd yn 2017 – yn nodi cynllun uchelgeisiol i greu economi sy'n gystadleuol yn fyd-eang yn seiliedig ar bum congfaen twf.

Cyhoeddwyd strategaeth rheoli gwastraff Gogledd Iwerddon, Delivering Resource Efficiency²⁹, yn 2013 ac mae'n pennu cyfeiriad tuag at ddefnyddio gwastraff yn fwy effeithlon i'w wneud yn elfen allweddol o ddatblygu a hybu economi gylchol, carbon isel. Mae'n cefnogi'r pecyn gwastraff PEG a bydd yn cael ei diwygio maes o law, gan ystyried canlyniadau cyfres o ymgynoriadau.

Cyhoeddwyd dogfen drafod³⁰ ar ddyfodol ailgylchu a chasglu gwastraff aelwydydd ar wahân yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mehefin ac mae'n rhoi'r cyfle i'r cyhoedd a

²⁴ <https://llyw.cymru/gwastraff-ac-ailgylchu>

²⁵ <https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi>

²⁶ <https://llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol>

²⁷ <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-cymru-2015-canllawiau>

²⁸ <https://www.economy-ni.gov.uk/consultations/industrial-strategy>

²⁹ <https://www.daera-ni.gov.uk/publications/delivering-resource-efficiency-northern-ireland-waste-management-strategy>

³⁰ <https://www.daera-ni.gov.uk/consultations/discussion-future-recycling-and-separate-collection-waste-household-nature-northern-ireland>

busnesau ddylanwadu ar y modd y caiff yr agweddau allweddol hyn ar y PEG eu rhoi ar waith yng Ngogledd Iwerddon.

Yr Alban

Polisi economi gylchol a gwastraff yr Alban

Ers tro byd, mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod manteision dull economi gylchol. Yn 2016, fe lansiom ni 'Making Things Last', a oedd yn gosod y sylfeini ar gyfer gweithredu trwy nodi gweledigaeth a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i adeiladu economi gylchol yn yr Alban. Mae hyn yn golygu lleihau i'r eithaf alw'r boblogaeth ar adnoddau crai a chynyddu i'r eithaf yr arfer o aildefnyddio, ailgylchu ac adfer adnoddau, yn hytrach na'u trin fel gwastraff. Mae llawer o dargedau ac ymrwymadau polisi Llywodraeth yr Alban o ran yr economi gylchol yn gyson â gofynion y PEG ac eisoes yn mynd y tu hwnt iddynt.

Yn ddiweddar fe ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar gynigion deddfwriaethol i fynd ati ymhellach i wreiddio dull arloesol o arbed, aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau a helpu i ymdrin ag eitemau y gwyddom eu bod yn achosi difrod amgylcheddol³¹.

Mae mesurau eraill sydd ar waith, neu yn yr arfaeth, i reoli a lleihau gwastraff a hybu economi fwy cylchol yn yr Alban yn cynnwys:

- Gwella effeithlonrwydd adnoddau³² trwy gamau gweithredu megis atal defnydd o ddeunyddiau untro;
- Cyflwyno Cynllun Dychwelyd Blaendal³³ ar gyfer cynwysyddion diodydd;
- Cynorthwyo partneriaid cyflawni i fynd i'r afael â sbwriel a thipio anghyfreithlon³⁴;
- Cymryd cyngor gan y Panel Arbenigol ar Godi Tâl Amgylcheddol a mesurau eraill³⁵;
- Ariannu Zero Waste Scotland³⁶ i gyflawni mentrau lleihau gwastraff;
- Ariannu Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yn yr Alban (SEPA)³⁷ i reoleiddio ar drin a gwaredu gwastraff;

³¹ <https://consult.gov.scot/environment-forestry/circular-economy-proposals-for-legislation/>

³² <https://www.gov.scot/policies/managing-waste/resource-efficiency/>

³³ <https://www.gov.scot/policies/managing-waste/deposit-return-scheme/>

³⁴ <https://www.gov.scot/policies/managing-waste/litter-and-flytipping/>

³⁵ <https://www.gov.scot/groups/expert-panel-on-environmental-charging-and-other-measures/>

³⁶ <https://www.zerowastescotland.org.uk/>

³⁷ <https://www.sepa.org.uk/regulations/waste/>

Atodiadau

(Gweler y dogfennau ar wahân)

- I. Crynodeb o'r dull arfaethedig o drosi mesurau PEG 2020
- II. Asesiad Brysbennu Rheoleiddiol (RTA)
- III. Diweddariadau arfaethedig i'r canllawiau ynghylch y Gyfarwyddeb Deunydd Pacio a Gwastraff Deunydd Pacio